# David Jones
## 1825 – 1861

David Jones oedd mab ieuengaf Thomas a Catherine Jones, Carreg y Dwn, Llangernyw. Ffermio oedd ei dad. Roedd ei fam Catherine neu Cadws fel y'i gelwir hi yn ddynes fawr gyhyrog, hardd ei phryd a'i gwedd, a'i gwallt yn ddu fel y frân. Roedd hi'n adnabyddus i gylch eang fel bydwraig ac roedd galw mawr am ei gwasanaeth. Rydym yn deall ei bod yn gantores dda, yn codi canu yng nghapel Bethabara ac ar ôl iddi gael ei bedyddio yn yr afon daeth môr o gân oherwydd canodd Catrin nes gwefreiddio pawb yn y gwasanaeth

Yn ôl cyfrifiad 1841 roeddynt yn byw yn Pentrefelin. Y plant eraill oedd Margaret, Nathaniel, William a Thomas. Priododd Margaret gyda David Vaughan a chawsant 2 o blant ond bu hi farw'n ifanc. Priododd Nathaniel gydag Elizabeth a buont yn byw yn "College". Ffermio oedd William a'i deulu yn Pentre ac roedd Thomas yn byw gyda hwy yn 1851. Crydd oedd galwedigaeth Thomas.

Priododd David Jones gyda Margaret Evans o Bandy Tudur a chawsant 8 o blant. Yn nhu ôl un o'i lyfrau yn y Cwm cawn ei achau fel hyn :

O ochr um Tad

Lucy Williams ych Syr Watkin Wynnstay.

fy hen Nain   Loray Owen ych Lucy Williams.

fy Nhaid   Robert Jones ap Loray Owen.

John Owen gwr Loray Owen yn byw yn Ty'n Twll.

Robert Jones gwr Anne Jones yn byw yn Carreg y Dwn

Thomas mab Robert, Carreg y Dwn yn byw yn Pentrefelin yn 1831

David mab Thomas, Pentrefelin yn byw yn Llangerniew yn 1853

Plant

David a Thomas ganed Rhagfyr 19, 1849 am 1.30am

Bu farw David ac yn ôl y drefn galwyd y mab nesaf yn David.

Mary a aned Mai 15ed, 1851 am 6.00pm

Catherine a aned Chwefror 24ain, 1853 am 6.00am

Leah a aned Hydref 1af, 1854 am 9.00pm

Margaret a aned Gorffennaf 22ain, 1856 am 9.00pm

David ganed Mawrth 13, 1858 am 11.00pm

Jonah a aned Gorffennaf 31ain, 1860 am 9.00am

*David Jones was the youngest son of Thomas and Catherine Jones, Carreg y Dwn. His father was a farmer. His mother was Catherine Jones or Cadws as she was known. She was a very strong beautiful woman with black hair. She was also known  locally as a midwife and there was a great demand for her services. She was also a very well known singer especially in the Bethabara chapel. After she was babtized and rose from the water she started singing and praised the Lord.*

*In the 1841 census they were living in Pentrefelin with their children Margaret, Nathaniel, William, Thomas and David. Margaret married David Vaughan with whom she had 2 sons but she died very young. Nathaniel married Elizabeth and they lived at College but did not have any children. William and his family farmed at Pentrefelin and in the 1851 census Thomas his brother also lived with them.*

*David married Margaret and they had 8 children. In the back of one of the ledger's in the Syr Henry Jones Museum we have the family pedigree as follows :*

*From my father's side*

*Lucy Williams dau Syr Watkin Wynnstay*

*my great grandmother Lorey Owen dau Lucy Williams*

*my grandfather  Robert Jones son of Loray Owen*

*John Owen husband of Loray Owen living at Ty'n twll*

*Robert Jones husband of Anne Jones living at Carreg y Dwn*

*Thomas son of Robert, Carreg y Dwn living at Pentrefelin in 1831*

*David son of Thomas,Pentrefelin living at Llangerniew in 1853*

*Children*

*David + Thomas born December 19, 1849 half past 1 morning*

*David died and acording to custom they called the next son David.*

*Mary born May 15, 1851  6 evening*

*Catherine born Feburary 24 1853  6 in the morning*

*Leah born October 1, 1854 at  9 night*

*Margaret born July 22, 1856  at  9 night*

*David born March 13, 1858  at 11 night*

*Jonah born July31 1860  at  9 morning*